**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Syr Jon Cunliffe
Cadeirydd y Comisiwn Dŵr Annibynnol

26 Mawrth 2025

Annwyl Syr Jon,

## Y Comisiwn Dŵr Annibynnol – Galwad am Dystiolaeth

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 5 Mawrth 2025, yn tynnu sylw at alwad y Comisiwn Dŵr Annibynnol am dystiolaeth.

Nid yw Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith (y Pwyllgor) mewn sefyllfa i ymateb i'r cwestiynau a nodir yn yr alwad am dystiolaeth. Fodd bynnag, roeddwn yn meddwl y gallai fod yn ddefnyddiol rhannu gyda chi ein *Hadroddiad ar orlifoedd stormydd yng Nghymru* (Mawrth 2022) a'n *Hadroddiad ar berfformiad Dŵr Cymru* (Chwefror 2024). Gobeithiwn y byddant o ddefnydd ichi.

Mae'r materion a godwyd yn yr adroddiadau uchod, a all fod yn arbennig o berthnasol i waith y Comisiwn, wedi'u crynhoi isod.

## Fframwaith Cyffredinol ar gyfer Rheoli Dŵr

### *Mesur ac asesu'r amgylchedd dŵr*

O ran monitro ac adrodd ar iechyd yr amgylchedd dŵr, yn ein *Hadroddiad ar orlifoedd stormydd yng Nghymru* tynnwyd sylw at yr angen i wella trefniadau monitro presennol gyda'r nod o ddeall yn well effaith gollyngiadau carthion ar ddŵr derbyn. Gwnaethom alw am ystyried rôl bosibl gwyddoniaeth dinesydd o fewn y trefniadau gwell hyn.

## Amcanion Polisi Cyhoeddus y Diwydiant Dŵr

### *Diogelu'r amgylchedd*

Fel yr amlinellir yn ein *Hadroddiad ar orlifoedd stormydd yng Nghymru*, mae lefel hyder y cyhoedd yn y drefn rheoleiddio a gorfodi ar gyfer gorlifoedd stormydd yn isel. Pwysleisiwyd pwysigrwydd sicrhau

bod Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn gallu ymateb yn brydlon ac yn effeithiol i ddigwyddiadau llygredd, ac i fod yn barod i gymryd camau gorfodi pan fydd trwyddedau'n cael eu torri. Codwyd pryder am allu CNC i gyflawni ei rolau a'i gyfrifoldebau statudol yn briodol oherwydd diffyg capasiti ac adnoddau.

O ran camau gorfodi, mae ein *Hadroddiad ar berfformiad Dŵr Cymru* yn nodi bod CNC wedi cael ei feirniadu am ei ymagwedd flaengar at orfodi a'i amharodrwydd amlwg i erlyn Dŵr Cymru am dorri trwyddedau. Er bod erlyniad ar gael i CNC, a hynny'n gwbl briodol, rydym yn nodi'n glir na ddylid ei ystyried fel y canlyniad terfynol.

## Perchnogaeth

### *Y model nid-er-elw*

Fel yr amlinellir yn ein *Hadroddiad ar berfformiad Dŵr Cymru*, mae model 'nid-er-elw' y cwmni yn ei osod ar wahân i gwmnïau dŵr eraill yng Nghymru a Lloegr, sy'n eiddo preifat. Mae Dŵr Cymru yn elwa ar beidio â gorfod talu difidendau i gyfranddalwyr. Yn hytrach, gellir defnyddio unrhyw wargedion ariannol i gyflymu buddsoddiad a darparu cyllid ychwanegol ar gyfer tariffau cymdeithasol. Serch hynny, ni ddylai'r model 'nid-er-elw' ddod yn esgus dros danberfformio. Er nad oes yr un model yn berffaith, mae awgrym Ofwat mewn tystiolaeth gerbron y Pwyllgor o 'ddiffyg atebolrwydd' sy'n deillio o statws 'nid-er-elw' Dŵr Cymru yn destun pryder. Gwnaethom egluro wrth Dŵr Cymru ein bod yn disgwyl i drefniadau llywodraethu mewnol fod yn ddigon cadarn i ddwyn swyddogion gweithredol cwmnïau i gyfrif ac i ysgogi gwelliannau mewn perfformiad.

Mae'r Pwyllgor yn aros am ganfyddiadau eich adolygiad gyda diddordeb.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.